Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Medi 2025

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hapsamplu'r Panel Craffu
## Ymgyrch Soteria – Dioddefwyr Treisio a Throseddau Rhyw Difrifol

## Canfyddiadau ac adborth yr aelodau

## Medi 2025

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Trosolwg, Cefndir, Diben, a Methodoleg** | **3** |
| 2. | **Crynodeb gweithredol** | **6** |
| 3. | **Ymholiadau gan y Panel Sicrhau Ansawdd** | **8** |
| 4. | **Adolygiad o achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol** | **14** |
| 5. | **Camau nesaf** | **27** |

## 1. Trosolwg, Cefndir, Diben, a Methodoleg

Mae'r llawlyfr sicrhau ansawdd, sydd ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn nodi cefndir, pwrpas a methodoleg y panel.

Ar 25 Medi 2025, cyfarfu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ym mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i adolygu detholiad o ddigwyddiadau yn ymwneud â dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol.

Mae Ymgyrch Soteria yn rhaglen ymchwil a newid genedlaethol a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac a arweinir gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Nod y rhaglen genedlaethol hon yw cynhyrchu model gweithredu cenedlaethol unedig ledled Cymru a Lloegr sy'n gwella'r ffordd y caiff oedolion sy'n dioddef treisio a throseddau rhyw difrifol eu trin.

Mae Ymgyrch Soteria wedi'i seilio ar dair egwyddor allweddol:

1) Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
2) Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddrwgdybir
3) Dull sy'n cael ei lywio gan gyd-destun

Mae pum egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol yn tanategu pob rhyngweithiad rhwng yr heddlu a dioddefwyr, gyda phwyslais gwerthfawr ar ryngweithiadau parchus, anfeirniadol, cyson, teg ac atebol drwyddi draw. Dyma bum egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol:

1. **Tegwch** – triniaeth ddiduedd a chyfle cyfartal i bob dioddefwr.

2. **Urddas a pharch** – mae dioddefwyr yn cael eu trin mewn ffordd ddynol, a rhoddir ystyriaeth ddifrifol i'w profiad, eu hawliau a'u buddiannau.
3. **Llais a chydnabyddiaeth** – mae rhwystrau i gyfranogiad dioddefwyr yn cael eu dileu. Gwrandewir ar ddewisiadau, ymholiadau a phryderon dioddefwyr ac ymatebir iddynt.
4. **Diogelwch –** nodi a gweithredu ar bryderon diogelwch dioddefwyr. Mae'n golygu sicrhau nad ydyn nhw'n agored i niwed drwy gymryd rhan mewn ymchwiliad neu drwy ei adael.
5. **Dibynadwyedd** – dangos i ddioddefwyr fod Heddlu Dyfed-Powys yn gyson, ein bod yn ddiffuant yn ein hymatebion i ddioddefwyr a bod ein gweithredoedd yn dryloyw ac yn atebol.

Rhwng Awst 2023 a Rhagfyr 2024, cwblhaodd holl swyddogion rheng flaen a ditectifs Heddlu Dyfed-Powys hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb mewn perthynas ag Ymgyrch Soteria. Er bod ditectifs wedi cael hyfforddiant ychwanegol i ymchwilio i achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol, cafodd swyddogion rheng flaen hyfforddiant ar egwyddorion allweddol Ymgyrch Soteria, ac ar sut y disgwylir iddynt gadw at egwyddorion cyfiawnder gweithdrefnol wrth ryngweithio â phob dioddefwr-oroeswr.


Gofynnwyd i'r Panel Sicrhau Ansawdd asesu cyfres o recordiadau o gamerâu corff a galwadau fideo GoodSAM. Mae'r lluniau o'r camerâu corff yn dangos ymateb cychwynnol swyddogion rheng flaen yr heddlu a'u rhyngweithio â'r dioddefwr. Mae lluniau GoodSAM yn dangos rhyngweithiadau rhwng ditectifs arbenigol sy'n ymgysylltu ac yn casglu gwybodaeth gychwynnol o achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol nad ydynt yn ddiweddar (a ddigwyddodd fisoedd neu flynyddoedd yn ôl). Gofynnwyd i'r panel adolygu'r lluniau a chyflawni'r canlynol:


1. Asesu cydymffurfiaeth yr heddlu ynghylch y pum egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol (Tegwch, Urddas a Pharch, Llais a Chydnabyddiaeth, Diogelwch, Dibynadwyedd).
2. Cymharu safonau gwasanaeth a ddarperir gan swyddogion rheng flaen gweithredol a swyddogion yr Adran Ymchwilio i Droseddau (CID) sy'n gweithredu'r gwasanaeth ffôn rhithwir – GoodSAM.


## 2. Crynodeb gweithredol


**<u>Maes ffocws un</u>**

Asesodd aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd bedwar achos. Dyma grynodeb o'u gwerthusiad o berfformiad Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â phum egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol.






## Maes ffocws dau

**Asesiad cyffredinol wrth gymharu'r ddau wasanaeth:**

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Mae lefel yr hyfforddiant i swyddogion rheng flaen yn ymddangos yn foddhaol. Cydnabu'r Panel Sicrhau Ansawdd fod rôl a swyddogaeth swyddogion rheng flaen yn amrywiol ac yn ddeinamig ac felly efallai nad oes ganddynt yr un wybodaeth fanwl o'i gymharu â swyddogion a ditectifs sy'n arbenigo ar achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol.
- Canmolodd y Panel Sicrhau Ansawdd broffesiynoldeb yr holl swyddogion a ddangoswyd ar luniau camerâu corff a GoodSAM.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o feio dioddefwyr na gwahaniaethu ar ddelweddau camerâu corff na GoodSAM wrth i'r heddlu ryngweithio â dioddefwyr.

**Meysydd i'w gwella:**

- Roedd y ddau fideo GoodSAM a adolygwyd yn cynnwys yr un swyddog heddlu yn ymgysylltu â dioddefwr. Felly, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ansicr a ddylai Heddlu Dyfed-Powys ddehongli eu hadborth yn benodol ar gyfer y swyddog dan sylw neu fel asesiad cyffredinol o'r gwasanaeth a ddarperir trwy GoodSAM.
- Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth ehangach i sicrhau bod swyddogion yn adeiladu perthynas ac yn dangos empathi wrth ymgysylltu'n rhithiol drwy GoodSAM, yn enwedig lle mae dioddefwr yn gwneud datgeliadau sensitif am dreisio a throseddau rhyw difrifol. O'i gymharu, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod y swyddogion rheng flaen wedi dangos empathi ac wedi meithrin perthynas dda â dioddefwyr.
- Gan fod lluniau a recordiwyd gan GoodSAM yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer cofnodi datgeliadau gan ddioddefwyr, hoffai'r Panel Sicrhau Ansawdd weld lluniau o'r camerâu corff lle mae swyddogion rheng flaen wedi cael yr un dulliau o

gasglu tystiolaeth, yn hytrach na chwblhau'r llyfryn cyfweld â thystion.

## 3. Ymholiadau gan y Panel Sicrhau Ansawdd

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| I swyddogion rheng flaen, a fyddai'n fanteisiol cael dau swyddog yn bresennol; un i gofnodi'r hyn sydd gan y dioddefwr i'w ddweud yn y llyfryn cyfweld â thystion, a'r llall i ymgysylltu â'r dioddefwr a'i holi, gan gynnal cyswllt llygaid? | *Byddai'r argymhelliad hwn yn sicr o ganiatáu i swyddog sgwrsio ac ymgysylltu â'r dioddefwr gyda gwell cyswllt llygaid; ond yn anffodus, byddai'n anodd darparu'r adnoddau ar gyfer pob achos oherwydd llwythi achosion swyddogion a lefelau staffio presennol.* |
| Holodd y Panel Sicrhau Ansawdd a ellid defnyddio lluniau camerâu corff at ddibenion recordio cofnod y dioddefwr yn y llyfryn cyfweld â thystion, gan eu bod yn teimlo bod y broses drawsgrifio yn arwain at ddistawrwydd hirfaith a chyswllt llygaid cyfyngedig pan roedd y dioddefwr yn datgelu gwybodaeth sensitif a phersonol.<br><br>Yn ogystal, cwestiynodd y Panel Sicrhau Ansawdd yr angen i lenwi llyfryn cyfweld â thystion ochr yn ochr â'r asesiad o gam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd, gan fod y lluniau o'r camera corff eisoes wedi cofnodi manylion y datgeliad. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ymwybodol o'r niwed a'r anhawster y mae dioddefwyr yn eu hwynebu | *Mae camera corff yn offeryn rhagorol i gofnodi rhyngweithio â dioddefwyr, gan gynnwys cofnodi ymarweddiad y dioddefwr a'i gyfathrebu dieiriau ac ati. Mae'r broses gyfrif gychwynnol wedi'i hysgrifennu o fewn y canllawiau "Cyflawni'r Dystiolaeth Orau", ac nid wyf yn credu bod unrhyw ganllawiau cenedlaethol ynghylch defnyddio camerâu corff fel dull amgen i gofnodi cyfrif cychwynnol mewn achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol. Mae hyn yn rhywbeth, efallai, y gallaf siarad yn ei gylch gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched a Diogelu'r Cyhoedd (NCVPP) yn ystod eu hymweliad â'r heddlu ym mis Rhagfyr.* |

| | |
|---|---|
| pan ofynnir iddynt ateb cwestiynau ynghylch eu datgeliad o brofiad(au) trawmatig. | *Pwrpas y llyfryn cyfweld â thystion a'r asesiadau cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd yw deall beth sydd wedi digwydd, ble mae wedi digwydd, a phwy oedd ynghlwm â'r digwyddiad, ond hefyd i weithredu diogelu priodol a all gynnwys graddio'r risg i'r dioddefwr yn gywir a deall pa gymorth y gallai fod ei hangen ar y dioddefwr yn dilyn presenoldeb yr heddlu. Drwy gwblhau'r ddwy ddogfen yn ystod un ymweliad, mae'n atal oedi cyn rhoi cymorth. Byddai'n anodd gwahanu'r ddwy ddogfen gan eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion ar wahân. Ni fydd angen llenwi llyfryn cyfweld â thystion ymhob achos o gam-drin domestig, ac ni fydd angen asesiad cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd ar bob achos o dreisio a throseddau rhyw difrifol.* |
| A yw'r hyfforddiant a ddarparwyd i swyddogion rheng flaen wedi cyfeirio at ddewis amgylcheddau addas ar gyfer datgeliadau gan ddioddefwyr? | *Mae swyddogion rheng flaen wedi cael hyfforddiant sy'n benodol i ddeall egwyddorion Ymgyrch Soteria – sy'n canolbwyntio ar y sawl a ddrwgdybir, gyda'r dioddefwr yn ganolog, ac sy'n cael ei arwain gan y cyd-destun. Mae'r hyfforddiant yn trafod cyfiawnder gweithdrefnol gan sicrhau bod swyddogion yn ymgysylltu â dioddefwyr mewn ffordd sensitif ac yn gyfrinachol. O wylio'r lluniau o'r camerâu corff, oedd yn cynnwys cyswllt rhwng y dioddefwr a'r heddlu mewn ysbyty, byddai cyfle wedi bod i ofyn am breifatrwydd nes bod eu sgwrs drosodd, a dylai swyddogion fod yn ymwybodol o hyn. O brofiad personol* |

| | |
|---|---|
| | *mewn amgylchedd ysbyty prysur, gall fod yn anodd dod o hyd i ystafelloedd er mwyn cael y sgyrsiau sensitif a phreifat hynny.* |
| Wrth drafod y tri chanlyniad posibl i ymchwiliad troseddol, teimlai’r Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddog (cofnod dau) wedi pwysleisio’r cam lle nad oes angen camau pel-lach, a gallai’r dioddefwr ystyried fod hyn yn rhywbeth ne-gyddol iawn. A fyddech chi’n cytuno â’r asesiad hwn? Ac a ydych chi’n credu y dylid adolygu’r ffordd y darperir gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol yn unol ag awgrymiadau’r Panel Sicrhau Ansawdd? | *Rwyf wedi myfyrio ar yr adborth hwn ac yn credu bod lle ac amser i drafod canlyniadau ‘dim camau pellach’. Er ei bod hi’n bwysig rheoli disgwyliadau dioddefwr, os mai’r nod yw cynorthwyo i gael cyfiawnder, gallai hyn fod yn rhywbeth i’w egluro’n ddiweddarach mewn ymchwiliad ac nid o reidrwydd ar y dechrau. Mewn achosion lle nad yw’r dioddefwr yn ymgysylltu o’r cychwyn cyntaf, bydd egluro penderfyniad nad oes camau pellach yn bwysig, gan mai dyna fydd cam nesaf yr ymchwiliad, yn ôl pob tebyg, ar ôl mynd i'r afael â materion diogelu.* |
| A oes cyfyngiad amser i swyddogion gynnal cyfweliad GoodSAM? | *Na, nid yw cyswllt GoodSAM yn wahanol i swyddog yn mynd i gyfeiriad ei hun gyda’r dioddefwr. Gall pob cyswllt bara am amseroedd gwahanol yn dibynnu ar faint mae’r dioddefwr yn dymuno ymgysylltu â’r swyddog, pa ddogfennau sydd angen i’r swyddog eu cwblhau ac ati. Mae’n bwysig nad yw dioddefwyr yn teimlo eu bod wedi’u llethu gan wybodaeth a rennir, ac mae hyn yn rhywbeth y gallwn edrych arno fel y gellir egluro rhywfaint o’r wybodaeth ynghylch y broses cyfiawnder troseddol cyn yr alwad GoodSAM. Y perygl i hyn yw y gallai dioddefwyr benderfynu peidio â chymryd rhan mewn galwad GoodSAM* |

| | |
|---|---|
| | *pan nad ydynt ond wedi cael gwybodaeth berthnasol gyfyngedig i'w helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Mae llawer o wybodaeth y mae angen i swyddogion heddlu ei hesbonio i ddioddefwr, boed hyn wyneb yn wyneb neu drwy GoodSAM. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron ddogfen ganllaw sy'n egluro'r broses cyfiawnder troseddol sydd dros 300 tudalen o hyd. Mae gennym ddogfen ganllaw sy'n rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr yn dilyn cyswllt wyneb yn wyneb neu drwy GoodSAM, sydd yn llawer llai o dudalennau. Mae'r canllaw'n offeryn da i helpu i ddeall rhywfaint o'r wybodaeth a eglurir gan y swyddog.* |
| A ddylai fod gan bob swyddog lyfryn cyfweld â thystion a bagiau fforensig yn eu cerbydau? | *Dylai. Mae'n bwysig bod gan swyddogion y deunyddiau perthnasol wrth fynychu achos o drosedd ryw. Mae llyfryn newydd ar sut i ymateb i droseddau rhyw yn cael ei greu ar hyn o bryd ac rydym yn gobeithio y bydd wedi'i gynnwys ar derfynellau data symudol (dyfeisiau gwaith) y swyddogion fel nad oes rhaid iddynt argraffu copïau papur. Dylid storio pecynnau tystiolaeth gynnar a bagiau arddangosion mewn cerbydau, ac mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn ei drafod gyda'r uwch-arweinwyr perthnasol a'r pwyntiau cyswllt unigol lleol ar gyfer nwyddau traul fforensig.* |

| | |
|---|---|
| A ofynnir i'r dioddefwr cyn yr ymgysylltiad rhithwir trwy GoodSAM a fyddai'n well ganddo siarad â swyddog o'r un rhyw? | *Mae'n bwysig sicrhau bod y dioddefwr yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â swyddog wrth drafod pynciau sensitif fel troseddau rhyw. Mae Ymgyrch Bluestone yn cynnwys dau dditectif benywaidd ac felly nid oes dewis ar hyn o bryd i ddioddefwr siarad â dyn drwy GoodSAM. Gallai hyn newid yn y dyfodol gan fod yr heddlu yn edrych ar fodelau newydd lle gallai llawer o swyddogion, gwrywaidd a benywaidd, gael eu hyfforddi i ddefnyddio GoodSAM. Ar hyn o bryd, pan fydd Ymgyrch Bluestone yn cysylltu â dioddefwr dros y ffôn, eglurir bod gan y dioddefwr y dewis o roi cyfrif cychwynnol i un o'r ddau dditectif benywaidd drwy GoodSAM, neu gall swyddog ymweld â nhw'n bersonol. Os dewisant yr olaf, dylai Heddlu Dyfed-Powys wneud pob ymdrech i anfon swyddog o'r rhyw y byddai'r dioddefwr yn ei ffafrio. Yn fy mhrofiad i, mae'n well gan rai dioddefwyr siarad â swyddog o ryw gwahanol.* |
| O ystyried amharodrwydd y dioddefwr i fwrw ymlaen yn achos pedwar, a fyddai'n rhaid i'r dioddefwr gydsynio i siarad â swyddog arbenigol drwy GoodSAM? | *Lle nad yw dioddefwr yn chwilio am gyfiawnder troseddol, mae'n bwysig parchu ei ddymuniadau. Yn sicr, mewn achosion lle nad yw dioddefwyr yn cefnogi canlyniad cyfiawnder troseddol, mae'n bwysig deall y rhesymau dros hyn i helpu i oresgyn unrhyw rwystrau, boed hynny fel teimlo eich bod chi'n cael eich credu, profiadau negyddol gyda'r heddlu, iechyd meddwl, ofn canlyniadau gan yr unigolyn dan amheuaeth ac ati. Mae hefyd yn bwysig bod dioddefwyr yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus, eu bod yn teimlo bod yr heddlu yn eu credu, a'u bod yn deall* |

| | |
|---|---|
| | *pa gymorth sydd ar gael ni waeth beth yw penderfyniad y dioddefwr. Mewn rhai achosion, swyddogion dibrofiad sy'n cael y cyswllt cychwynnol â dioddefwyr troseddau rhyw, nad ydynt efallai'n gallu egluro'r broses cyfiawnder troseddol cystal ag y gall swyddogion arbenigol. Os bydd dioddefwr yn dewis peidio ag ymgysylltu yn dilyn cyswllt â swyddog arbenigol, gallwn fod yn sicr eu bod wedi gwneud penderfyniad gwybodus ac yn deall beth yw'r camau nesaf i osgoi dryswch. Gallai hyn annog dioddefwr i ddod ymlaen yn y dyfodol. Mae'n ymwneud â grymuso dioddefwyr a rhoi'r rheolaeth yn ôl iddyn nhw y mae troseddau rhyw yn aml, ac yn anffodus, yn ei chymryd i ffwrdd.* |
| Ar gyfer swyddogion heddlu sy'n defnyddio GoodSAM, a oes sgript/rhestr wirio o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei rhoi i ddioddefwyr ar y cam hwn? Os oes, a oes unrhyw hyblygrwydd o ran sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei lledaenu?<br>Ar y ddau fideo GoodSAM a adolygwyd, barnodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymgysylltiad yn llethol. | *Nid yw swyddogion Ymgyrch Bluestone yn dilyn sgript na rhestr wirio. Mae'n amlwg, oherwydd nifer yr achosion o dreisio maen nhw'n delio â nhw, y gall ymddangos fel pe bai wedi'i sgriptio oherwydd yr arfer o egluro'r broses i ddioddefwyr. Fodd bynnag, ni ddylai'r broses hon ymddangos yn robotig nac wedi'i sgriptio mewn unrhyw ffordd, ond dylai lifo fel sgwrs arferol. Mae'n ymwneud â darparu gwybodaeth glir a chydlynol, ond hefyd gwirio dealltwriaeth y dioddefwr o'r hyn a eglurwyd. Bydd y swyddog yn myfyrio ar hyn ac efallai'n rhannu'r wybodaeth yn adrannau llai.* |

## 4. Adolygiad o achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol

| **Cofnod un – (camerâu corff)** |
|---|
| **Amgylchiad**<br><br>Wrth gael ymweliad mewn ward ysbyty, mae’r dioddefwr wedi datgelu manylion ynghylch digwyddiad o dreisio i staff. Mae swyddog wedi bod yn bresennol i gymryd manylion. |
| *A fu’r swyddog yn* ***deg****?* |
| • Roedd gan y swyddog ymagwedd dawel a thyner a ystyriwyd yn briodol wrth ymateb i ddatgeliad y dioddefwr.<br>• Nid oedd unrhyw arwydd o feio’r dioddefwr na chanfyddiad bod y dioddefwr yn cael ei farnu.<br>• Rhoddodd y swyddog sicrwydd pan oedd y dioddefwr yn ansicr a ddylai fwrw ymlaen ag achos troseddol, a rhoddodd wybodaeth ynghylch cydsyniad wrth drafod atebolrwydd yr unigolyn dan amheuaeth. |
| *A ddangosodd y swyddog* ***urddas*** *a* ***pharch*** *i’r dioddefwr?* |
| • Ni chlywyd y swyddog yn gofyn i’r dioddefwr a hoffent siarad â swyddog o’r un rhyw.<br>• Cynhaliodd y swyddog yr ymholiadau mewn lleoliad cyhoeddus, a ystyriwyd yn amhriodol gan y Panel Sicrhau Ansawdd. Bu nifer o ymyraethau gan staff yr ysbyty ac nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ystyried yr amgylchedd yn gyfrinachol/diogel ar gyfer unrhyw ddatgeliadau.<br>• Er gwaethaf y problemau amgylcheddol, ystyriodd y panel fod y swyddog wedi gwneud yn dda o dan yr amgylchiadau a bod y dioddefwr yn ymddangos yn gyfforddus i ddatgelu’r drosedd. |

| |
|---|
| *A wrandawodd y swyddog ar **lais** y dioddefwr?* |
| • Ar ôl i'r swyddog gwblhau'r llyfryn cyfweld â thystion, symudodd y swyddog yn agosach at y dioddefwr, fel y gallai ddarllen y ddogfen a'i llofnodi.<br>• Dangosodd y swyddog amynedd ac empathi ac roedd yn barchus o ddymuniadau'r dioddefwr. |
| *A ystyriodd y swyddog **ddiogelwch** y dioddefwr?* |
| • Trafododd y dioddefwr bryderon ynghylch beichiogrwydd a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol. Cydnabu'r swyddog bryderon y dioddefwr a thrafododd atgyfeiriad i gynllun Llwybrau Newydd ac i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw.<br>• Dywedwyd wrth y dioddefwr y byddai'r unigolyn dan amheuaeth yn cael ei arestio, a rhoddwyd amodau i'r dioddefwr i beidio â mynd ato/ati na chysylltu ag ef/hi.<br>• Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ansicr a oedd gwasanaethau cymorth priodol ar waith ar ôl i'r swyddog orffen cymryd y manylion. |
| *A fu'r swyddog yn **ddibynadwy**?* |
| • Trafododd y swyddog y broses ymchwilio, ac eglurodd pa adran yn Heddlu Dyfed-Powys fyddai'n ymdrin â'r honiad a phryd i ddisgwyl cyswllt pellach gan swyddogion arbenigol yn yr Adran Ymchwilio i Droseddau.<br>• Fel y soniwyd uchod, rhoddodd y swyddog wybod i'r dioddefwr am gynllun Llwybrau Newydd a'u gwasanaethau, ond ni rannwyd unrhyw esboniad/gwybodaeth am y sefydliad.<br>• Trafodwyd manylion ynghylch y ffenestr fforensig ond nid oedd y swyddog yn ymddangos yn sicr o'r weithdrefn. |
| *A godwyd unrhyw bethau **cadarnhaol** gan y panel?* |

- Esboniodd y swyddog y byddai'r Adran Ymchwilio i Droseddau yn dilyn hyn i fyny ond cynigiodd i'r dioddefwr y gallai gysylltu ag ef yn y cyfamser.
- Rhoddodd y swyddog sicrwydd i'r dioddefwr pan nad oedd yn siŵr beth i'w wneud.
- Roedd naws empathetig briodol i eiriau'r swyddog drwyddi draw.
- Clywyd y swyddog yn gofyn sut roedd y dioddefwr yn teimlo ar ôl cofnodi yn y llyfryn cyfweld â thystion.
- Esboniodd y swyddog fod y camera corff yn recordio a gofynnodd a oedd y dioddefwr yn hapus â hyn.

*A wnaeth y panel ystyried unrhyw **feysydd i'w gwella**?*

- Nid oedd yn glir pam y dewisodd y swyddog gynnal yr ymholiadau mewn ward ysbyty y tu ôl i len. Fel y soniwyd, roedd yna lawer o ymyriadau. Nid oedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ei ystyried yn lle preifat ac roedd yna bethau'n tynnu sylw, fel plant yn crio. Cydnabu'r Panel Sicrhau Ansawdd nad oeddent yn ymwybodol o'r amgylchiadau llawn, ac o bosib, y gallai anafiadau a gafodd y dioddefwr fod wedi'u hatal rhag newid lleoliad.
- Er bod ffordd y swyddog o siarad wedi'i chanmol gan y Panel Sicrhau Ansawdd, nododd eraill ei fod yn ymddangos yn anghyfforddus, ac fe'i clywyd yn dweud "ym" nifer o weithiau, gan awgrymu naill ai fod yr amgylchedd yn tarfu arno, neu nad oedd y swyddog yn hyderus yn y broses.
- Roedd cyswllt llygaid cyfyngedig gan y swyddog, oherwydd cyfrifoldeb cwblhau'r llyfryn cyfweld â thystion. Roedd yna hefyd gyfnodau hirfaith o dawelwch a theimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd fod hyn yn wrthgynhyrchiol wrth gymryd manylion ac annog y dioddefwr i symud ymlaen â'r broses cyfiawnder troseddol.
- Ni wiriodd y swyddog a oedd angen seibiant ar y dioddefwr drwy gydol eu cyfarfyddiad.
- Bu'r swyddog yn gwrthddweud ei hun drwy ddatgan nad oeddent yn credu bod y drosedd wedi digwydd o fewn y ffenestr fforensig, ond yna dywedodd y byddai'r unigolyn dan amheuaeth yn cael ei arestio i gael archwiliad fforensig.

| *A godwyd unrhyw **gwestiynau**?* |
| --- |
| • I swyddogion rheng flaen, a fyddai'n fanteisiol cael dau swyddog yn bresennol, un i gofnodi'r hyn sydd gan y dioddefwr i'w ddweud yn y llyfryn cyfweld â thystion a'r llall i ymgysylltu â'r dioddefwr a'i holi, gan gynnal cyswllt llygaid?<br>• Holodd y Panel Sicrhau Ansawdd a ellid defnyddio lluniau camerâu corff at ddibenion recordio cofnod y dioddefwr yn y llyfryn cyfweld â thystion, gan eu bod yn teimlo bod y broses drawsgrifio yn arwain at ddistawrwydd hirfaith a chyswllt llygaid cyfyngedig pan roedd y dioddefwr yn datgelu gwybodaeth sensitif a phersonol.<br>• A yw'r hyfforddiant a ddarparwyd i swyddogion rheng flaen wedi cyfeirio at ddewis amgylcheddau addas ar gyfer datgeliadau gan ddioddefwyr? |

| **Cofnod dau – (GoodSAM)** |
|---|
| **Amgylchiad**<br>Mae’r dioddefwr wedi datgelu achos o dreisio drwy alwad ffôn rithwir GoodSAM. |
| *A fu’r swyddog yn **deg**?* |
| • Nid oedd unrhyw dystiolaeth o feio’r dioddefwr.<br>• Fodd bynnag, teimlai’r Panel Sicrhau Ansawdd nad oedd y dioddefwr wedi cael digon o amser i ystyried yr wybodaeth a rannwyd gan y swyddog ynghylch y broses droseddol, ar ôl iddo ddatgelu manylion yr achos o drais. Roedd rhai aelodau o’r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod y swyddog yn darllen sgript ac yn gwneud hynny ar frys. |
| *A ddangosodd y swyddog **urddas** a **pharch** i’r dioddefwr?* |
| • Er bod y swyddog wedi ymateb yn bwyllog ac yn empathetig, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn pryderu y gallai’r dioddefwr fod wedi’i lethu gan yr holl wybodaeth fanwl a rannwyd.<br>• Cafodd y swyddog sicrwydd fod y dioddefwr mewn lleoliad diogel a gofynnodd am gael gweld yr ystafell iddo fedru cadarnhau ei fod ar ei ben ei hun ac yn ddiogel. |
| *A wrandawodd y swyddog ar **lais** y dioddefwr?* |
| • Roedd y swyddog yn glir wrth roi gwybodaeth i’r dioddefwr am y broses droseddol. Roedd y panel o’r farn fod y swyddog |

yn wybodus ac wedi cynnig yr eglurder angenrheidiol ar y broses cyfiawnder troseddol yn gyffredinol.

- Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn pryderu y gallai swyddogion arbenigol fod mewn perygl o fynd yn rhy anhyblyg wrth gyflwyno gwybodaeth ac nad oeddent yn gallu bod yn hyblyg, os oedd angen, i gynnig y cysur angenrheidiol i ddioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol pan oedd ei angen, oherwydd natur sensitif yr hyn a oedd yn cael ei ddatgelu.
- Teimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddog wedi rhoi'r argraff ei fod yn darllen o sgript, gan arwain at lawer o wybodaeth a allai fod wedi'i gohirio i'w cefnogi yn y broses ymchwilio.
- Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod gormod o jargon yn cael ei ddefnyddio fel ISVA (cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol) ac ABE (sicrhau'r dystiolaeth orau) heb esboniad o'u hystyr. Awgrymodd y panel y dylid defnyddio'r termau hyn yn eu ffurf lawn.

*A ystyriodd y swyddog **ddiogelwch** y dioddefwr?*

- Gofynnodd y swyddog i'r dioddefwr ddangos yr ystafell iddo i gadarnhau ei fod mewn lle diogel i drafod.
- Cafodd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol ei gyflwyno ar y dechrau, a rhoddodd drosolwg o'r gwasanaeth Llwybrau Newydd. Nododd y panel hefyd fod y dioddefwr wedi cael amser i ystyried y cynnig o gymorth.
- Tynnodd y Panel Sicrhau Ansawdd sylw at y manteision sy'n gysylltiedig â'r datgeliad rhithwir hwn, sef ei fod yn ddull cyfrinachol i ddioddefwyr fedru datgelu i swyddogion heddlu heb fod angen iddynt fynd i'w gartref.

*A fu'r swyddog yn **ddibynadwy**?*

- Wrth drafod y tri chanlyniad posibl a all ddigwydd wrth yrru'r agwedd cyfiawnder troseddol yn ei blaen, teimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd y gallai'r swyddog fod wedi bod yn pwysleisio'n ormodol y canlyniad 'dim camau pellach', y gallai dioddefwr ei ystyried yn rhywbeth negyddol iawn.
- Roedd y panel o'r farn fod y swyddog yn broffesiynol a'i fod wedi rhoi sicrwydd i'r dioddefwr y byddai modd iddo gysylltu

| |
|---|
| ag ef wrth i swyddog ymchwilio gael ei neilltuo i ymdrin â'r ymchwiliad. |
| *A godwyd unrhyw bethau **cadarnhaol** gan y panel?* |
| • Dangosodd y swyddog wybodaeth a chymhwysedd rhagorol yn ei rôl.<br>• Roedd mwyafrif y Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod ymddygiad y swyddog yn fesuredig ac yn empathetig. |
| *A wnaeth y panel ystyried unrhyw feysydd i'w **gwella** ?* |
| • Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod dyfnder yr wybodaeth ynghylch y broses cyfiawnder troseddol a'r mesurau arbennig yn ormodol, a gofynnwyd a oedd angen ei chyflwyno ar y cam hwn o'r datgeliad. Awgrymodd y panel y gellid rhannu rhywfaint o'r wybodaeth hon yn ystod rhyngweithiadau eraill. |
| *A godwyd unrhyw **gwestiynau**?* |
| • Wrth drafod y tri chanlyniad posibl i ymchwiliad troseddol, teimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddog wedi pwysleisio'r cam 'dim camau pellach', y gallai'r dioddefwr fod ei ystyried yn gwbl negyddol. A fyddech chi'n cytuno â'r asesiad hwn? Ac a ydych chi'n credu y dylid adolygu'r ffordd y darperir gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol yn unol ag awgrymiadau'r Panel Sicrhau Ansawdd?<br>• A oes cyfyngiad amser ar ba mor hir y dylai swyddogion gynnal cyfweliad GoodSAM? |

| **Cofnod tri – (camerâu corff)** |
| --- |
| **Amgylchiad**<br>Mae'r dioddefwr wedi datgelu digwyddiad o dreisio yn eu cartref gan eu partner. |
| *A fu'r swyddog yn **deg**?* |
| • Ni ddangosodd y swyddog unrhyw arwyddion o feio'r dioddefwr a dangosodd natur gefnogol, anfeirniadol a gofalgar.<br>• Rhoddodd y swyddog ddigon o sicrwydd i'r dioddefwr, gan roi gwybod iddynt nad oeddent yn atebol am weithredoedd yr unigolyn dan amheuaeth. Canmolodd y swyddog ddewrder y dioddefwr wrth ddod ymlaen. |
| *A ddangosodd y swyddog **Urddas** a **Pharch** i'r dioddefwr?* |
| • Gofynnodd y swyddog i'r dioddefwr a oeddent yn dymuno aros y tu mewn i'r fan neu a oedd yn well ganddynt siarad yn y tŷ (yr oedd yr unigolyn dan amheuaeth wedi'i adael).<br>• Rhoddodd y swyddog flanced i'r dioddefwr i'w gadw'n gynnes.<br>• Ni ofynnwyd i'r dioddefwr a hoffent siarad â swyddog o'r un rhyw.<br>• Rhoddodd y swyddog sicrwydd i'r dioddefwr a dangosodd ofal gwirioneddol amdano.<br>• Trafododd y swyddog y ffenestr fforensig a'r gofyniad i gael eitemau o'r gwely at ddibenion tystiolaeth. |
| *A wrandawodd y swyddog ar **lais** y dioddefwr?* |

| |
|---|
| • Roedd yn amlwg bod cydberthynas rhwng y dioddefwr a'r swyddog a oedd yn galluogi'r dioddefwr i deimlo'n gyfforddus yn datgelu cam-drin blaenorol ochr yn ochr â'r datgeliad am dreisio. Datgelodd y dioddefwr y manylion yn ôl eu pwysau a dangosodd y swyddog empathi, gan ymddiheuro'n rheolaidd am ofyn cwestiynau sensitif.<br>• Rhoddodd y swyddog dawelwch meddwl a chefnogaeth i'r dioddefwr drwy gydol y cyfnod. |
| *A ystyriodd y swyddog **ddiogelwch** y dioddefwr?* |
| • Amlinellodd y swyddog yn glir yr hyn a fwriadwyd i ddigwydd i'r unigolyn dan amheuaeth a pha fesurau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i amddiffyn y dioddefwr rhagddo, a'i atal rhag dychwelyd.<br>• Trafododd y swyddog fesurau arbennig y gellid eu rhoi ar waith pe bai'r digwyddiad yn cael ei glywed yn y llys.<br>• Esboniodd y swyddog cyfweld eu bod yn mynd i gynnal asesiad risg cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd tra bod yr ail swyddog yn nôl y llyfryn cyfweld â thystion.<br>• Rhoddodd y swyddog wybod i'r dioddefwr am gynllun Llwybrau Newydd ac y byddent yn atgyfeirio am gymorth ar ran y dioddefwr.<br>• Cadarnhaodd y swyddog gyda'r dioddefwr fod ganddynt gymorth gan ffrindiau a theulu ar ddiwedd y datgeliad. |
| *A fu'r swyddog yn **ddibynadwy**?* |
| • Gwnaeth y swyddog osgoi defnyddio talfyriadau a jargon.<br>• Dangosodd y swyddog agwedd bwyllog wych wrth rannu gwybodaeth, gan egluro'r broses mewn ffordd y gellid ei deall yn hawdd.<br>• Esboniodd y swyddog i'r dioddefwr beth oedd y broses ar ôl iddynt orffen cymryd manylion a beth fyddai'r camau nesaf. |

| |
|---|
| • Gwnaeth y swyddog osgoi rhannu gwybodaeth ddiangen ac eglurodd y gweithdrefnau'n glir ac yn broffesiynol. |
| *A godwyd unrhyw bethau* ***cadarnhaol*** *gan y panel?* |
| • Cynigiodd y panel y dylai'r swyddog dderbyn adborth ar ei sgiliau cyfathrebu rhagorol, ei broffesiynoldeb a'r modd effeithiol y gwnaeth gasglu tystiolaeth berthnasol drwy gydol ei ymwneud â'r dioddefwr. |
| *A wnaeth y panel ystyried unrhyw* ***feysydd i'w gwella****?* |
| • Nid oedd gan y naill swyddog rheng flaen na'r llall lyfryn gwybodaeth i dystion na bagiau fforensig yn y fan er mwyn iddynt fwrw ymlaen â'r casglu tystiolaeth angenrheidiol. |
| *A godwyd unrhyw* ***gwestiynau****?* |
| • A ddylai fod gan bob swyddog lyfryn gwybodaeth i dystion a bagiau fforensig yn eu cerbydau heddlu?<br>• Cwestiynodd y Panel Sicrhau Ansawdd a oedd angen llenwi llyfryn gwybodaeth i dystion ar wahân i'r asesiad cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd, gan fod lluniau'r camerâu corff wedi recordio'r datgeliad, ac roeddent yn ystyried natur ailadroddus gofyn i'r dioddefwr ddatgelu profiad(au) trawmatig. |

| **Cofnod pedwar – (GoodSAM)** |
|---|
| **Amgylchiad**<br>Mae'r dioddefwr wedi datgelu digwyddiad o dreisio ond maent yn amharod i rannu manylion na bwrw ymlaen gydag ymchwiliad troseddol. |
| *A fu'r swyddog yn **deg**?* |
| • Nid oedd unrhyw arwydd o feio'r dioddefwr drwy gydol y rhyngweithio.<br>• Dangosodd y swyddog agwedd anfeirniadol ac esboniodd yn glir y broses o gydsynio a chyfrifoldeb yr unigolyn dan amheuaeth. |
| *A ddangosodd y swyddog **urddas** a **pharch** i'r dioddefwr?* |
| • Ni chafodd y dioddefwr gyfle i siarad â swyddog o'r un rhyw. Fodd bynnag, cydnabu'r panel y gallai hyn fod wedi'i drefnu gan swyddogion a allai fod wedi sefydlu'r manylion hyn cyn i'r dioddefwr gydsynio i ymgysylltu rhithwir trwy GoodSAM.<br>• Gan fod y dioddefwr yn amharod i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad troseddol, gan nodi'r awydd i symud ymlaen â'i fywyd, cyflwynodd y swyddog rôl y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol o gynllun Llwybrau Newydd, a'r cyfle i gael cwnsela, gan gynghori y gallai trawma'r digwyddiad gael effaith arnyn nhw yn y dyfodol. Er bod cwnsela wedi'i awgrymu fel dewis, canolbwyntiodd y swyddog wedyn ar agwedd negyddol y rhestr aros.<br>• Trafododd y swyddog gydsyniad yn fanwl gyda'r dioddefwr, ac roedd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod hyn yn rhoi tawelwch meddwl i'r dioddefwr. |

| *A wrandawodd y swyddog ar **lais** y dioddefwr?* |
|---|
| • Roedd y dioddefwr yn benderfynol na fyddai'n bwrw ymlaen â'r llwybr cyfiawnder troseddol, ac er bod y swyddog yn cydnabod hyn, teimlai rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd ei fod yn ymddangos yn benderfynol yn ei gais i'r dioddefwr ailystyried a datgelu manylion yr unigolyn dan amheuaeth.<br>• Teimlai rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd nad oedd y dioddefwr wedi cael amser i ymateb wrth i'r swyddog rannu gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol. Er gwaethaf hyn, nodwyd bod y swyddog wedi cymryd amser i wrando ar y dioddefwr pan oedd yn siarad, er mwyn deall y rhwystrau yr oedd yn teimlo oedd yn ei atal rhag bwrw ymlaen ag ymchwiliad.<br>• Roedd y swyddog yn amlwg eisiau i'r dioddefwr ddeall y broses a chael ei ddiogelu. |
| *A ystyriodd y swyddog **ddiogelwch** y dioddefwr?* |
| • Cadarnhaodd y swyddog bod y dioddefwr yn ddiogel ar ddechrau'r fideo drwy ofyn iddo ddangos yr ystafell iddo.<br>• Fel y nodwyd uchod, cyfeiriwyd y dioddefwr at wasanaeth Llwybrau Newydd ac awgrymwyd cwnsela. Fodd bynnag, efallai bod y pwyslais ar yr amser aros wedi bod yn negyddol iawn, er mai cymhelliad da oedd i reoli disgwyliadau'r dioddefwr. |
| *A fu'r swyddog yn **ddibynadwy**?* |
| • Eglurwyd y broses cyfiawnder troseddol yn drylwyr i'r dioddefwr ac amlinellodd y swyddog natur heriol y broses ymchwilio.<br>• Gan fod y cyfathrebu wedi cael ei hwyluso'n rhithwir, mynegodd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd bryderon bod y rhyngweithio'n rhy glinigol ac yn rhwystr i feithrin cydberthynas wirioneddol yn ystod camau cychwynnol y datgeliad. Disgrifiwyd y broses gan rai fel un wedi'i sgriptio, ac roedd bron yn rhy anhyblyg yn ei hanallu ymddangosiadol i addasu i anghenion y dioddefwr. |

| A godwyd unrhyw bethau **cadarnhaol** gan y panel? |
|---|
| • Roedd y swyddog yn gefnogol o benderfyniad y dioddefwr ac yn deall y cymhlethdod o ran cefnogi rhywun sydd yn dal yn y camau cyntaf o geisio prosesu'r digwyddiad a chydnabod eu bod yn ddioddefwr trosedd rhyw.<br>• Anogodd y swyddog y dioddefwr a rhoddodd dawelwch meddwl iddo drwy gydol eu hymgysylltiad.<br>• Cydnabu'r panel fod rhyngweithio â dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol yn gofyn am ddilyn lefel benodol o sgript i sicrhau bod gan y dioddefwr y manylion perthnasol. Ymdrechodd y swyddog i bersonoli'r wybodaeth a rannwyd am gyfiawnder troseddol. |
| A wnaeth y panel ystyried unrhyw **feysydd i'w gwella**? |
| • Unwaith i'r dioddefwr ddatgelu amgylchiadau'r digwyddiad, prin iawn oedd y cyfleoedd i'r dioddefwr ymateb i unrhyw beth a rannwyd gan y swyddog. Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod y dioddefwr yn amlwg yn amharod i ymgysylltu â'r swyddog. Gwnaeth hyn hi'n anodd adeiladu cydberthynas.<br>• Roedd y broses yn teimlo fel ei bod yn dilyn sgript, a rhoddwyd yr argraff bod y swyddog yn ceisio perswadio'r dioddefwr i newid ei feddwl, yn hytrach na pharchu ei benderfyniad cychwynnol. Unwaith i'r dioddefwr gyhoeddi na fyddai'n cefnogi achos troseddol, gwnaeth y swyddog ymdrechion i ganfod manylion yr unigolyn dan amheuaeth, gan gynghori bod hyn at ddibenion diogelu, ond gwrthododd y dioddefwr eu darparu. |
| A godwyd unrhyw **gwestiynau**? |
| • A ofynnir i'r dioddefwr, cyn yr ymgysylltiad rhithwir drwy GoodSAM, a fyddai'n well ganddo siarad â swyddog o'r un rhyw?<br>• O ystyried amharodrwydd y dioddefwr i fwrw ymlaen, a fyddai'n rhaid i'r dioddefwr gydsynio i siarad â swyddog arbenigol drwy GoodSAM?<br>• I swyddogion heddlu sy'n defnyddio GoodSAM, a oes sgript/rhestr wirio o wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i |

ddioddefwyr ar y cam hwn? Os oes, a oes unrhyw hyblygrwydd o ran sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei lledaenu? Ar y ddau fideo GoodSAM a adolygwyd, barnodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymgysylltiad yn llethol.

## 5. Camau nesaf

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu sefydlu panel craffu a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar achosion lle nad oes camau pellach ar sail y trothwy tystiolaeth ymddangosiadol.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ochr yn ochr â Llwybrau Newydd a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cael gwahoddiad i eistedd ar y panel a fydd yn cyfarfod yn fisol. Bydd y panel craffu yn craffu ar ddau achos i ddarparu dysgu parhaus i swyddogion heddlu ac i sicrhau bod ymchwiliadau i dreisio a throseddau rhywiol difrifol yn gyson, yn effeithiol ac yn gyfannol wrth gasglu tystiolaeth. Ac yn bwysicaf oll, eu bod yn dangos ymgysylltiad ac empathi tuag at y dioddefwyr-oroeswyr drwy gydol y broses. Drwy'r fforwm craffu hwn, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gobeithio nodi gwaith craffu yn y dyfodol ar gyfer y Panel Sicrhau Ansawdd.

Bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ailystyried eu craffu ar wasanaeth cymorth Llwybrau Newydd i ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol yn y flwyddyn nesaf, a bydd yn edrych i sefydlu unrhyw wersi o weithgarwch craffu blaenorol, y gellir eu gweld yma.